# Uned 13: Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol

**Côd yr Uned:** **M/600/9127**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno sgiliau a gwybodaeth i ddysgwyr y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu cnydau amaethyddol, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

I gynhyrchu cnydau amaethyddol yn llwyddiannus rhaid cael amrediad eang o sgiliau ymarferol a gwybodaeth gysylltiedig. Mae'r uned hon yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer sefydlu a thyfu cnydau, amddiffyn cnydau, cynaeafu a storio.

Caiff rheoli ffermio integredig ac economeg cynhyrchu cnydau amaethyddol eu hastudio gan ddefnyddio amrediad eang o gnydau amaethyddol pwysig, i ddatblygu sgiliau rheoli. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i gyfleoedd am gnydau newydd ymddangos a lle gall y farchnad ar gyfer y cnydau sy'n bodoli newid.

Wrth i ddiogeledd bwyd ddod yn fater pwysig yn genedlaethol ac yn fyd-eang, mae ar y diwydiant angen gweithlu creadigol wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n gyfarwydd â thechnoleg fodern a geir ar nifer o ffermydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad dysgwyr ym mhob agwedd ar gynhyrchu cnydau modern, gyda'r nod o efelychu a phrofi arferion ffermio modern. Bydd y dysgwyr yn monitro cnydau ar bob cam o'u cynhyrchu yn ystod amser dysgu yn y dosbarth, gydag agronomegydd ac, yn bwysicach, ar eu pennau eu hunain. Byddant yn cael teithiau cerdded o amgylch cnydau, yn defnyddio peiriannau âr modern yn y maes, ac yn rhan o weithrediadau cynaeafu a chynllunio polisi fferm ar gyfer y dyfodol.

Trwy gydol yr uned bydd angen i'r dysgwyr weithio'n effeithiol ar eu pennau eu hunain ac fel rhan o dîm. Bydd pwyslais cryf ar iechyd a diogelwch y dysgwyr trwy gydol yr uned.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Wybod sut i sefydlu cnydau amaethyddol

2 Gallu cynllunio twf cnydau

3 Deall sut i gynaeafu a storio cnydau

4 Deall costau cynhyrchu a marchnadoedd.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod sut i sefydlu cnydau amaethyddol

*Mathau o gnydau:* grawn; hadau olew; glaswellt; gwraidd-gnydau ee tatws, betys; bresych; codlysiau; cnydau amgen/eraill ee had llin, miscanthus

*Amaethu:* system ee aredig, dim troi'r pridd, drilio uniongyrchol, eco-droi; paratoi gwelyau hadau; trefn gweithrediadau; cyfradd waith; peiriannau ee amaethu cychwynnol, amaethu eilaidd, peiriannau sefydlu, atgyfnerthu gweithredu

*Sefydlu:* cylchdroi cnydau; pridd ee math, gwead, strwythur, gofynion gwelyau hadau; cyfraddau hadau ee bylchiad, pwysau mil-grawn (TGW), poblogaeth planhigion darged, graddnodiad; dyfnder plannu; dewis cyltifar ee rhestrau a argymhellir, gofynion y farchnad; cyfnod plannu optimwm, dewis peiriannau; amseru ee yr hydref, gwanwyn.

## 2 Gallu cynllunio twf cnydau

*Gofynion maeth:* pH ee calch, goddefiad cnydau; prif faetholion ee nitrogen, ffosffad, potasiwm (NPK), sylffwr; mân faetholion ee boron, manganîs; gwrtaith organig ac anorganig; mynegeion pridd; Parthau Perygl Nitradau (NVZ); effeithiau cylchdroi ee codlysiau; gofynion gwrtaith ac argymhellion, ffynonellau gwybodaeth ee agronomegwyr cymwysedig FACTS RB209, PLANET, mapiau maetholion pridd manwl, synhwyro pell, cymwysiadau cyfradd amrywiol; amseru ee amseru optimwm, tymhorau caeëdig

*Amddiffyn cnydau:* dulliau ee diwylliant, cemegol, ffisegol, biolegol; chwyn; clefydau ee ffyngau, feirol; plâu ee pryfed, nematodau, adar, mamaliaid; rheolyddion twf planhigion (PGR); nodi twf a chamau datblygu ee Zadok; monitro cnydau; codau ymarfer a deddfwriaeth ee Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Cofrestr Genedlaethol Gweithredwyr Chwistrellwyr (NRoSO), Asesiadau Risg Plaleiddiaid ar yr Amgylchedd Lleol (LERAP), Menter Wirfoddol; ffynonellau gwybodaeth ee agronomegwyr cymwysedig BASIS; Arweiniad ar Blaleiddiaid y Deyrnas Unedig

## 3 Deall sut i gynaeafu a storio cnydau

*Cynaeafu:* dulliau cynaeafu; peiriannau; amseru ee aeddfedrwydd cnydau; paratoi ee troi ystodau, sychu, chwistrellu; cludiant ee i storfeydd

*Storio:* paratoi storfa; mathau o storio ee claddau, storfa swmp, blychau, storfeydd cydweithredol; sychu a chyflyru; monitro cnydau mewn storfa ee lleithder, tymheredd, awyriad, amddiffyn rhag rhew, blaguro, dadansoddi silwair; rheoli plâu a fermin; rheoli storio ee llwytho a dadlwytho, gwahanu mathau o gnydau

## 4 Deall costau cynhyrchu a marchnadoedd

*Gofynion y farchnad:* y farchnad darged (ee llifanu, bragu, hau, crimpio, porthiant, bio-danwydd); safonau ansawdd ee Rhif Gostyngol Hagberg (HFN), lleithder, gwedd, gwenwyn ffwng, cynnwys protin; gofynion y contract; cynlluniau sicrhau cnydau; cyfleusterau prosesu cydweithredol/canolog

*Cnydiad:* cnydiad targed; dulliau o leihau colledion ee gosod peiriannau cynaeafu'n gywir, atal cleisio, sychu, claddu

*Prisiau'r farchnad a chostau cynhyrchu:* monitro prisiau cnydau ee adroddiadau'r farchnad, tueddiadau, amseriad gwerthu, marchnata ar y cyd; meincnodi ee offer meincnodi HGCA

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 nodi cnydau ac amrywiaethau priodol | | |
| Ll2 dethol offer priodol ar gyfer paratoi gwelyau hadau | | Rh1 cyfiawnhau'r defnydd o offer amaethu ar gyfer gweithrediad penodol a'r dewis o amrywiaeth ar gyfer cnwd penodol |
| Ll3 nodi manylebau plannu cywir | T1 cyfrifo cyfraddau hau ar gyfer cnydau a ddetholwyd | |
| Ll4 disgrifio cylchdroi cnydau addas ar gyfer mathau penodol o bridd [YA, MC, DM] | | |
| Ll5 cynllunio rhaglen wrteithio ar gyfer cnydau penodol | T2 egluro pam fod angen y pH pridd cywir ar gyfer cnydau penodol a'r prif faetholion hybrin | |
| Ll6 disgrifio gweithdrefnau rheoli chwyn, plâu a chlefydau priodol i gynhyrchu cnwd penodol [GT, HR, CE] | | Rh2 gwerthuso'r rhaglen gynhyrchu ar gyfer cnwd a ddewiswyd ac effaith y rhaglen ar yr amgylchedd |
| Ll7 disgrifio canllawiau deddfwriaethol ac amgylcheddol cywir | | |
| Ll8 egluro gweithrediadau cynaeafu ar gyfer cnydau penodol | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll9 trafod amodau storio addas ar gyfer cnydau penodol | T3 monitro storio cnwd a gynaeafwyd dros amser penodol. | |
| Ll10 gwerthuso dulliau rheoli plâu a chlefydau storio | | |
| Ll11 gwerthuso gofynion y farchnad | | |
| Ll12 dadansoddi cnydiad | | |
| Ll13 cymharu prisiau'r farchnad | | |
| Ll14 cymharu costau cynhyrchu ar gyfer cnydau gwahanol | | Rh3 gwerthuso costau cynhyrchu ar gyfer cnwd penodol |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig ac ymweliadau â lleoliadau addas. Bydd yn cysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar fod yn rhan o holl weithrediadau cynhyrchu cnydau fferm, ac mae angen i'r tiwtor gynnig amrywiaeth mor eang â phosib o gyfleoedd dysgu i'r dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys darlithoedd, teithiau cerdded o amgylch cnydau yn rheolaidd, (yn ystod amser dosbarth ac amser y dysgwr ei hun), gwaith ymarferol fferm, profiad gwaith, sgyrsiau, ymweliadau ac ymwneud ag agronomegydd.

Er mwyn i'r uned fod yn effeithiol, bydd angen i'r tiwtoriaid ddewis amseriad yr asesiadau'n ofalus oherwydd pwysigrwydd tymoroldeb. At hynny, mae angen i'r tiwtor sicrhau bod yr holl gnydau perthnasol yn cael eu cynnwys hy cnydau y gellir eu dyrnu, glaswellt, bresych, codlysiau a gwraidd-gnydau. Dylid ystyried cnydau 'amgen' hefyd, megis miscanthus, had llin ac eraill.

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i ddata cofnodi fferm a hanes cnydau blaenorol.

Bydd angen i ddeilliant dysgu 1 gael ei gyflwyno ar ddechrau'r rhaglen, megis yn yr hydref. Gall fod y dysgwyr wedi gweithio gydag amaethu'r hydref a pharatoi gwelyau hadau ac yn rhan o’r gwaith hwnnw. Fel arall, byddai cnwd a hedir yn y gwanwyn hefyd yn addas ar gyfer yr un flwyddyn o'r rhaglen.

Bydd angen cyflwyno deilliant dysgu 2 i gyd-fynd â thwf cnydau, sy'n debygol o fod yn yr hydref a'r gwanwyn.

Bydd angen i ddeilliannau dysgu 3 a 4 drafod hanes cnydau blaenorol, am na fydd y dysgwyr yn y ganolfan yn ystod yr haf i fonitro a chasglu data cynaeafu, storio a marchnata'r cnwd cyfredol.

Bydd angen i'r tiwtoriaid amseru asesiadau'n ofalus iawn. Lluniwyd y meini prawf teilyngdod gyda'r nod o efelychu arfer y diwydiant wrth arsylwi cnydau a cherdded rheolaidd, er mwyn asesu sefyllfa'r cnwd ar bob cam o'i gynhyrchu. Dylid manteisio i'r eithaf ar deithiau cerdded cnydau yn ystod amser dysgu ac amser y dysgwyr eu hunain.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| Cyflwyniad i'r uned a throsolwg o'r uned |
| **Aseiniad 1: Amaethu a Sefydlu Cnydau** (Ll1, Ll2, Ll3, Ll4, T1, Rh1)<br><br>Briffio |
| Teithiau cerdded ymarferol o amgylch cnydau i arsylwi cyflwr caeau ar ôl cynaeafu a chyn drilio/plannu |
| Sesiwn theori: cylchdroi cnydau, priddoedd a strwythur pridd perthnasol i ganllawiau cynaliadwy. |
| Sesiwn ymarferol: amaethu, ymweld â digwyddiad amaethu, gofalu am beiriannau, eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw, teithiau cerdded o amgylch cnydau ac arolygu cnydau wedi'u hau. |
| **Aseiniad 2: Tyfu Cnydau Iach (rhan 1 gwrtaith)** (Ll5, Ll7, T2)<br><br>Briffio |
| Sesiwn theori: maetholion cnydau ac argymhellion cnydau, rhaglenni RB209 a PLANET, NVZ, canllawiau amgylcheddol a'r taliad sengl |
| Sesiwn ymarferol: teithiau cerdded cnydau, arsylwi a monitro camau tyfu cnydau |
| **Aseiniad 3: Tyfu Cnydau Iach (rhan 2 atal clefydau)** (Ll6, T3, Rh2)<br><br>Briffio |
| Sesiwn theori: camau twf cnydau, mathau o chwistrellwyr a'u defnyddio, canllawiau amgylcheddol, tystysgrifau cymhwysedd PA1 a 2, amseru chwistrellu, rheolyddion twf |
| Sesiwn ymarferol: teithiau cerdded rheolaidd o amgylch cnydau i arsylwi clefydau, niwed ac unrhyw ymateb i chwistrellu |
| **Aseiniad 4: Cynaeafu a Storio Cnydau** (Ll8, Ll9, Ll10)<br><br>Briffio |
| Sesiwn theori: peiriannau cynaeafu a llif cnydau, amseru cynaeafu i gyd-fynd ag aeddfedrwydd cnydau, mathau o storio cnydau, amddiffyn cnydau sy'n cael eu storio |
| Sesiwn ymarferol: cyflawni/cynorthwyo gyda gweithrediadau cynaeafu megis silwair, gwellt, ymweliad â storfa gnydau/cydweithredfa, paratoi claddau ar gyfer cnydau amrywiol |
| **Aseiniad 5: Marchnata Cnydau a Phrisiau’r Farchnad** (Ll11, Ll12, Ll13, Ll14, Rh3)<br><br>Briffio |
| Sesiwn theori: defnyddiau gwahanol cnydau, safonau sicrhau ansawdd cnydau, gofynion y farchnad. |
| Sesiwn ymarferol: ymweliad â menter berthnasol/gan siaradwr gwadd. |
| Sesiwn theori: prisiau a thueddiadau'r farchnad, cyfrifiadau maint gros a chostau uned cynhyrchu. |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, Ll2 ac Ll3, bydd angen i'r tiwtoriaid ddosbarthu’r asesiadau'n gynnar yn y rhaglen. Ar gyfer Ll1, mae angen i'r dysgwyr adnabod amrediad eang o gnydau a nodi'r defnydd ar gyfer amrywiaeth o gnydau. I gwblhau Ll2, bydd angen i'r dysgwyr arsylwi amrediad o beiriannau amaethu a deall egwyddorion rheoli pridd lle gellid defnyddio peiriannau. Dylai'r tiwtoriaid annog y dysgwyr i ddefnyddio unrhyw brofiad gwaith sydd ganddynt. Ar gyfer Ll3, bydd angen i'r dysgwyr nodi sut dylid plannu a hau amrywiaeth o gnydau. Mae angen iddynt ddeall pwysigrwydd lled rhesi, bylchu rhwng planhigion/hadau a faint o hadau/planhigion a ddefnyddir fesul hectar.

Ar gyfer Ll4, gallai'r dysgwyr ddefnyddio cynllun cylchdroi fferm, gwneud sylwadau arno a chreu cynllun ar gyfer y flwyddyn gnydio nesaf. Ar gyfer Ll5, Ll6 ac Ll7, dylid annog y dysgwyr i fonitro cnydau'n rheolaidd fel eu bod yn gallu cyflawni'r meini prawf hyn dros y cyfnod dan sylw.

Ar gyfer Ll8, Ll9 ac Ll10, gellid rhoi cnwd i'r dysgwyr ei ddisgrifio. Unwaith eto bydd angen i'r tiwtoriaid gynllunio amseriad yr asesiadau'n ofalus, yn enwedig os ydynt am i'r dysgwyr weld cynaeafu a storio. Y cnydau addas ar gyfer hyn yn ystod blwyddyn academaidd fyddai silwair neu laswellt. Ar gyfer Ll11, Ll12, Ll13 ac Ll14 rhaid bod y dysgwyr yn ymwybodol o amrywiadau ym mhris cnydau. Byddai defnyddio adroddiadau wythnosol am dueddiadau'r farchnad o gyhoeddiadau ffermio'r wasg yn ddefnyddiol iawn ynghyd ag unrhyw ddata safonol a gyhoeddir. Mae'n debygol y bydd angen cymryd data ar gyfer Ll12 o gnydiad blaenorol fferm neu o wybodaeth safonol.

Ar gyfer T1, T2, T3 a T4, mae angen i'r dysgwyr fonitro cnydau'n rheolaidd. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf adroddiadau maes, dyddiaduron neu flogiau.

Ar gyfer Rh1, dylai'r dysgwyr gyflwyno rhesymeg gymhellol dros ddefnydd fferm o beiriannau amaethu a'u dewis o gnwd, ynghyd â dewisiadau amgen y gellid bod wedi'u defnyddio. Bydd defnyddio data rheoli fferm cyfredol yn angenrheidiol. Fel dewis amgen, gallai'r tiwtoriaid ganiatáu i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau ar gyfer yr aseiniad a chyflwyno'u canfyddiadau i reolwr fferm. Ar gyfer Rh2, rhaid bod y dysgwyr yn gallu gwerthuso argymhellion agronomegydd ar gyfer defnyddio chwistrellwyr ac arsylwi a chofnodi cyflwr y cnwd cyn dewis chwistrelliad. Bydd angen i'r dysgwyr ddangos eu bod yn gallu nodi niwed a chlefydau i gnydau, yn gyfarwydd â chanllaw Plaleiddiaid y Deyrnas Unedig ac yn deall y defnydd o leiniau clustogi. Ar gyfer Rh3, bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad rheolaidd i wybodaeth ffisegol ac ariannol am gnydau fferm er mwyn cwblhau'r aseiniad.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, Ll4, T1, Rh1 | Sefydlu Amaethu a Chnydau | Cynhyrchu rhestr o gnydau addas i'w tyfu ar fferm benodol a monitro'u twf yn ystod y flwyddyn. Defnyddio rhaglen gylchdroi flaenorol y fferm a chynnig cylchdroi ar gyfer y tymor nesaf. Dewis y peiriannau amaethu angenrheidiol i sefydlu'r cnydau a chyfiawnhau eich dewis. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig/dyddiadur/ blog. |
| Ll5, Ll7, T2 | Tyfu Cnydau Iach (rhan 1 gwrtaith) | Cynhyrchu dyddiadur ar gyfer monitro rhaglen wrteithio cnydau. Nodi'r holl wrtaith organig ac anorganig a ddefnyddiwyd. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig/dyddiadur/ blog. |
| Ll6, T3, Rh2 | Tyfu Cnydau Iach (rhan 2 atal clefydau) | Cynhyrchu dyddiadur ar gyfer monitro rhaglen chwistrellu cnydau. Cyfiawnhau'r defnydd o chwistrelliadau yn unol ag anghenion cnydau a'r amgylchedd. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig/dyddiadur/ blog. |
| Ll8, Ll9, Ll10 | Cynaeafu a Storio Cnydau | Cynllunio cynaeafu a storio cnwd, a sut gellid monitro'r cnwd wedi ei storio. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig/dyddiadur/ blog. |
| Ll11, Ll12, Ll13, Ll14, Rh3 | Marchnata Cnydau a Phrisiau'r Farchnad | Cynhyrchu maint gros ar gyfer cnwd, yn nodi prisiau'r gorffennol, cyfredol a thebygol yn seiliedig ar ffigurau cyfredol a gwybodaeth gan y fferm. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig/dyddiadur/ blog |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Sefydlu Cnydau |
| Cynorthwyo wrth Gynhyrchu Cnydau Amaethyddol |
| **Lefel 3** |
| Elfen AgC9.1 Paratoi a monitro safleoedd ar gyfer amaethu<br>Elfen AgC9.2 Amaethu safleoedd ar gyfer plannu cnydau<br>Elfen AgC10.1 Monitro a chynnal tyfiant iach cnydau helaeth<br>Elfen AgC10.2 Lleihau'r risg i gnydau gan blâu, clefydau ac afiechydon<br>Elfen AgC11.1 Paratoi offer plannu<br>Elfen AgC11.2 Plannu a sefydlu cnydau helaeth<br>Elfen AgC12.1 Cynnal a chadw a rheoli gweithrediadau cynaeafu<br>Elfen AgC12.2 Paratoi cnydau a gynaeafir |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Planhigion |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Pridd |

## Adnoddau hanfodol

Bydd ar y dysgwyr angen cael mynediad i gaeau yn cynnwys amrywiaeth o gnydau, o bosib ar fferm y ganolfan ac ar ffermydd lleol lle tyfir cnydau gwahanol. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o bolisi'r fferm o ran yr amgylchedd, megis y defnydd o leiniau cadwraeth/clustogi, a lle mae'r fferm wedi ymuno â'r Cynllun Lefel Mynediad. Rhaid i'r dysgwyr hefyd allu cyflawni gweithrediadau maes penodol mewn ffordd ddiogel, gan ddefnyddio tractor a pheiriannau perthnasol.

Dylid annog sgyrsiau ac ymweliadau â ffermydd lleol a mentrau cysylltiedig neu gydweithfeydd er mwyn profi cwmpas llawn yr uned. Dylai cofnodion ffisegol ac ariannol fferm fod ar gael ar adegau perthnasol i'r dysgwyr yn ystod y rhaglen.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad dysgwyr ar bob cam o gynhyrchu cnydau. Bydd hyn yn cynnwys nid yn unig fferm y ganolfan, ond hefyd ffermydd lleol. Gellid llunio cytundeb â budd o'r ddeutu lle defnyddir fferm fel astudiaeth achos, a gwahodd y ffermwr i wrando ar farn dysgwyr ynghylch rheoli cnydau'r fferm a gwneud sylwadau.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Bell B – *Farm Machinery* (Old Pond Publishing, 2005) ISBN 1 903366 68 2

Culpin C a Bloxham P – *Culpin's Farm Machinery* (Blackwell Science, 2006) ISBN 0632051825

Davies D, Finney B, Eagle D – *Resource management: soil* (Farming Press, 2001) ISBN 0 85236 559 4

Eash N, Green C – *Soil Science Simplified* (Wiley-Blackwell, 2008) ISBN 13: 978-0-8138- 1823-8

Finch H, Samuel A, Lane G – *Lockhart & Wiseman's Crop Husbandry including grassland* (Woodhead publishing, 2002) ISBN 1 85573 5490

Nix J – *Farm Management Pocketbook, 39ain Argraffiad* (The Andersons Centre, 2009) ISBN 0954120159

Soffe R – *The Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293

Wilson P, King M – *Arable Plants – a field guide* (Wildguides, 2003) ISBN 1 903657 02 4

Younie D, Taylor B – *Organic Cereals and Pulses* (Chalcombe publications 2002) ISBN 0 948617 47 0

### Cyhoeddiadau eraill

DEFRA – *Fertiliser Recommendations for Agricultural and Horticultural Crops RB209, 8fed Argraffiad* (The Stationery Office Books, 2008)

*UK Pesticide Guide* (CABI, 2009) ISBN 978 1 845934 16 3

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.bayercropscience.co.uk | Bayer Crop Science |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.efma.org | European Fertiliser Manufacturers Association |
| www.hgca.com | Home Grown Cereals Authority |
| www.newfarmcrops.co.uk | New Farm Crops |
| www.niab.com | National Institute of Agricultural Botany |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | monitro cnydau eu hunain |
| **Meddylwyr creadigol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Dysgwyr myfyriol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Gweithwyr tîm** | cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith a chynllunio aseiniad fel tîm i'w gyflwyno i ffermwr |
| **Hunan-reolwyr** | cyflawni dyletswyddau fferm ac yn gyfrifol am eu prydlondeb eu hunain |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith a chynllunio aseiniad fel tîm i'w cyflwyno i ffermwr. |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Dysgwyr myfyriol** | ymweld â ffermydd lleol a mentrau perthnasol |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | ymweld â ffermydd lleol a mentrau perthnasol. |